# Agenda - Y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 11 Chwefror 2021

Amser: 14.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Graeme Francis**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

CraffuPW@senedd.cymru

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(Tudalennau 1 - 36)

## 2 Ymateb Llywodraeth Cymru i'r pandemig Covid-19 a'r adferiad

(14.00-15.20)

Y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS, Prif Weinidog Cymru

Andrew Goodall, Prif Weithredwr GIG Cymru a Chyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## Egwyl

(15.20-15.30)

## 3 Materion yn ymwneud ag ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd

(15.30-16.30)

Y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS, Prif Weinidog Cymru

Des Clifford, Cyfarwyddwr Cyffredinol - Swyddfa'r Prif Weinidog

## 4 Papur(au) i'w nodi

### 4.1 Ymateb Llywodraeth Cymru i'r pandemig Covid-19 a'r adferiad. Gohebiaeth gan y Pwyllgor Cyllid

(Tudalennau 37 - 38)

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

Eitem 6

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 6 Trafod y sesiwn dystiolaeth flaenorol

(16.30-16.50)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 4.1

Ann Jones AS
Cadeirydd y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog

04 Chwefror 2021

Annwyl Ann

**Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2021-22 / cynllun gweithredu adferiad COVID**

Ym mis Hydref 2020, fe wnaethom **ysgrifennu** at Jeremy Miles AS, y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd, yn ei wahodd i fod yn bresennol mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Cyllid mewn cysylltiad â Chyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22, yn rhinwedd ei swydd yn cydlynu gwaith adferiad Cymru yn sgil pandemig COVID-19.

Yn ystod y **cwestiynau** i'r Cwnsler Cyffredinol yn y Cyfarfod Llawn ar 11 Tachwedd 2020, nododd y Cwnsler Cyffredinol fod ei gyfrifoldebau ef o ran adferiad ar ôl COVID "wedi dod i ben gyda chyhoeddi'r cynllun gweithredu ar ddechrau mis Hydref".

Fel Pwyllgor, roeddem yn synnu nad oedd y cyfrifoldeb cyffredinol dros sicrhau llwyddiant y cynllun gweithredu yn dod o fewn cylch gwaith Gweinidog penodol ac felly fel **ysgrifennom** at y Prif Weinidog yn dilyn hynny i ofyn am eglurhad.

Yn ei **ymateb**, dywedodd y Prif Weinidog:

> "Mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn ei chyfanrwydd yn bwrw ymlaen ag adfer yn sgil Covid ac nad yw'r adferiad yn cael ei ystyried yn gyfrifoldeb i un Gweinidog yn unig. Mae ein blaenoriaethau ar gyfer adfer yn ymestyn ar draws ein holl swyddogaethau fel llywodraeth, yn awr ac yn y dyfodol."

Er ein bod yn cydnabod yr ymagwedd gyfunol hon, mae'r Pwyllgor yn bryderus iawn nad oes unrhyw Weinidog penodol yn uniongyrchol atebol am y gwaith adferiad ar ôl COVID. Heb fod y rôl gyffredinol hon ar waith, mae'r Pwyllgor wedi ei chael hi'n heriol gwneud **gwaith craffu effeithiol ar Gyllideb Ddrafft 2021-22 Llywodraeth Cymru**, cyllideb sydd, heb os, wedi cael ei heffeithio gan yr ansicrwydd parhaus sy'n deillio o bandemig COVID-19.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
0300 200 6565

Gan mai'r disgwyl yn eang yw y bydd y pandemig COVID-19 yma am gryn amser ac y bydd yn cael effaith sylweddol ar gynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer dyrannu cyllid ac adnoddau yn y dyfodol, mae'r Pwyllgor yn pryderu nad oes cyfrifoldeb cyffredinol i sicrhau y gweithredir y cynllun adfer yn llwyddiannus.

Gan nad yw gwaith monitro cynllun adferiad COVID yn dod o dan gylch gwaith un Gweinidog penodol, byddem yn awgrymu mai eich Pwyllgor chi sydd yn y sefyllfa orau i graffu ar y Prif Weinidog ar y dull strategol a gymerir o ran adferiad ar ôl COVID yn ei rôl arwain ar gyfer Llywodraeth Cymru. Byddem yn ddiolchgar iawn pe gallech nodi ein pryderon gyda'r Prif Weinidog yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 11 Chwefror 2021.

Yn gywir,



Llyr Gruffydd AS

Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.